



# YSGOL WLEDIG SYDD YN CYNNIG ADDYSG DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG YW YSGOL CARREG EMLYN

## PAM DEWIS ADDYSG GYMRAEG I'CH PLENTYN?



## Ymdeimlad o Berthyn

Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o ddiwylliant ac etifeddiaeth Cymru. Mae addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn helpu ein plant i gysylltu â'u gwreiddiau, gan feithrin ymdeimlad o falchder ac hunaniaeth yn eu hiaith a'u traddodiadau.

## Cyfleoedd

Nid yn unig y mae cyfle i ddysgu'r iaith Gymraeg, mae ein Cwricwlwm yn bachu ar bob cyfle i ddysgu am ein gwlad, ein traddodiadau a'n hanes. Ceir fynediad i lyfrau, ymweliadau a gweithgareddau sydd yn unigryw i Ysgolion Cymraeg.

## Dyfodol Yr Iaith

Trwy ddewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, mae ein plant yn cyfrannu at ddyfodol ein hiaith. Mae'r Gymraeg yn iaith arbennig, ac mae sicrhau bod pobl ifanc yn ei dysgu trwy addysg ffurfiol yn helpu i'w chadw'n fyw trwy'r cenhedlaethau

## Dwyieithrwydd

Yng Nghymru, mae rhai ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o fywyd cyhoeddus, yn enwedig yn y celfyddydau, cyfryngau ac addysg. Gall bod yn rhugl yn y Gymraeg agor cyfleoedd gyrfa arbennig yn y meysydd hyn, yn ogystal â'r sector cyhoeddus, lle mae galw cynyddol am weithwyr dwyieithog.


## Sgiliau

Mae dysgu trwy dwy iaith yn cryfhau'r cof. Mae astudiaethau yn dangos bod plant sy'n ddwyieithog yn tueddu i fod yn well wrth ganolbwyntio eu sylw a chadw i ffwrdd o aflonyddu, a gall hyn fod o fudd i'w dysgu yn y dyfodol

# LLAIS EIN DYSGWYR

58% yn nodi ei fod yn bwysig iawn a 36% yn nodi ei fod yn bwysig gallu siarad Cymraeg

94% yn nodi eu bod yn dewis siarad Cymraeg yn y dosbarth gyda'u ffrindiau bob amser



94% yn falch eu bod yn gallu siarad Cymraeg

Mae Dreigiau Iaith yn yr Ysgol yn hybu'r Iaith Gymraeg, dyma eu gwefan

97% yn mwynhau siarad Cymraeg

50% o'n dysgwyr yn nodi fod cael eu haddysg yn y Gymraeg yn bwysig iddynt.



YSGOL CARREG EMLYN

**SI Ysgol Carreg Emlyn - 2024-2025**

Ysgol cyfrwng Gymraeg, wledig ym mhentref Clocaenog yw Ysgol Carreg Emlyn sy'n gwasanaet...

google.com

# CEFNOGI EIN RHIENI DI-GYMRAEG

Cylchlythyr Wythnosol Dwyieithog

Nosweithiau Rhieni ac Adroddiadau yn iaith dewisiol y rhieni

Ymweliadau a digwyddiadau yn yr Ysgol - cyflwyniadau dwyieithog

Hysbysu ac egluro pwysigrwydd dathliadau Cymraeg

Ebyst a Negeseuon ar ein Ap yn ddwyieithog

Croeso cynnes i bawb yn yr Ysgol, pa bynnag iaith yr ydych yn ei siarad

Rhannu gwybodaeth am waith ein plant a digwyddiadau yn yr ysgol (ar blatfform SeeSaw ac Instagram) yn ddwyieithog



# DISGWYLIADAU EIN RHIENI

Fel Ysgol fe nawn popeth y gallwn i gefnogi ein rhieni di-Gymraeg. Gofynnwn ichi gydweithio gyda ni wrth ddewis addysg Gymraeg i'ch plentyn........

Parchu a chefnogi ein dathliadau a'n traddodiadau Cymreig.

Hybu balchder yn eich plentyn eu bod yn gallu siarad, darllen a gweithio drwy ddwy iaith.

Defnyddio ymadroddion syml Cymraeg gyda'ch plentyn fel 'Diolch', 'ydw' 'nac ydw', 'ia', 'na' ayyb


Annog eich plentyn i siarad Cymraeg yn gymdeithasol gyda'u ffrindiau neu yn y gymuned.

Gwrando ar eich plentyn yn darllen neu siarad yn Gymraeg.






# I WNEUD CAIS AM LE YN EIN HYSGOL



# CLICIWCH YMA

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

**School admissions | Denbighshire County Council**

Information about applying for a school place in Denbighshire.

denbighshire.gov.uk